22

CYNGOR CYMUNED ABERDARON

CLERC: MEIRION O.WILLIAMS
CRAIGMOR,ABERDARON,PWLLHELI,GWYNEDD.
LL53 8BEy
Ffon 01758-760515.
Symudol 0792-9988787
meirion.williams2@btinternet.com

17 Gorffennaf 2006

Ann Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Mss Jones,

Trefniadau Etholiadol yng Nghymru (Dogfen Drafod).

Sylwadau Cyngor Cymuned Aberdaron ar y ddogfen

Cwestiwn 4.
Fe ddylai bod dull cofrestru fel sydd mewn gwledydd eraill e.e. cofrestru yn awtomatig pan yn 18 oed.

Cwesiwn 6.
Ni ddylai system pleidleisio drwy'r post yn unig yn ymarferol.

Cwestiwn 8
Ni ddylai modd defnyddio lleoliadau eraill fel gorsafoedd pleidleisio , buasai yn anodd cadw trefn mewn archfarchnadoedd a.y.

Cwestiwn 9.
Difaterwch yw y rheswm penaf pan fod cyn lleiad o bobl yn pleidleiso.

Cwestiwn 10.
Mae'r ysgolion yn rhoi'r wybodaeth i ddisgyblion i'w helpu i wneud penderfyniad hyddysg o ran syt y maen't yn mynd i bleidleisio.

Cwestiwn 11.
Ni ddylid dysgu gwleidyddiaeth plaid mewn ysgolion. Dim ond gwleidyddiaeth yn gyffredinol.

Cwestiwn 14.
Mae digon o ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anabledd yn yr ardal hon

Cwestiwn 15.
Mae digon o ddarpariaeth ar gyfer pobl ag anabledd i'w helpu i bleidleio yn yr ardal hon.

Cwestiwn 17.
Ni fuasai blychau symudol yn ymarferol mewn ardal wasgaredig fel hon

Cwestiwn 18.
Fe ddylai fod yn ofynnol i reolwr gorsafoedd pleidleisio gynhyrchu adroddiad ar derfyn diwrnod pleidleisio.

Cwestiwn 19.
Mae digon o help a chyngor yn ddwyiethog i'w gael yn yr ardal hon

Yn gywir,

Meirion O.Williams (Clerc)